**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

10 Ionawr 2019

Annwyl Lesley

**Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) Drafft Llywodraeth y DU**

Byddwch yn ymwybodol i Lywodraeth y Du gyhoeddi drafft o Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) ('y Bil drafft') ar 19 Rhagfyr 2018. Yn y cyfarfod ar 10 Ionawr 2019, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch yn gofyn am eich barn am ddarpariaethau'r Bil drafft ac yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

**Cymhwyso'r Bil drafft**

Mae'r papur polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil drafft yn egluro bod yr amgylchedd yn faes datganoledig, ac eithrio nifer fach o feysydd a gadwyd yn ôl. Mae'r Bil drafft felly'n berthnasol i Loegr ac i'r DU o ran materion a gadwyd yn ôl.

1. **I ba faterion a gadwyd yn ôl y mae'r Bil drafft yn berthnasol mewn perthynas â Chymru? A oes unrhyw faterion a allai fod yn destun anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?**

2. **Pa drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil drafft yn ystyried tirwedd ddeddfwriaethol Cymru ac i sicrhau nad ydynt yn gwrthdaro ag egwyddorion a chyrff amgylcheddol datganoledig presennol Cymru?**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

**Datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol**

Bydd cymalau 1 i 4 (Datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol) y Bil drafft yn gymwys mewn perthynas â Chymru o ran swyddogaethau Gweinidogion y DU yn unig. Mae Cymal 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol. Mae'r datganiad yn egluro ystyr egwyddorion amgylcheddol a sut y byddant yn cael eu defnyddio. Yng Nghymal 2, nodir rhestr graidd o "egwyddorion amgylcheddol", a godwyd o nifer o ffynonellau presennol. Rhaid i Weinidogion y Goron roi sylw i'r datganiad polisi wrth wneud, datblygu a diwygio polisïau y mae'r datganiad yn ymdrin â hwy.

3. **Pa drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU ynghylch cymhwyso'r darpariaethau hyn yng Nghymru?**

4. **Beth yw eich barn am ystyr "egwyddorion amgylcheddol", fel y'i nodir yng Nghymal 2?**

5. **I ba raddau yr ydych chi'n fodlon nad yw'r "egwyddorion amgylcheddol" hyn yn gwrthdaro ag egwyddorion presennol Cymru; er enghraifft, datblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

6. **Beth yw'r goblygiadau posibl o gael egwyddorion amgylcheddol ar waith yn Lloegr sy’n wahanol i rai Cymru, ac o gael gwahanol egwyddorion amgylcheddol yng Nghymru o ran materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl?**

**Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd**

Mae'r Bil drafft yn sefydlu corff annibynnol, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP), i graffu ar y gyfraith amgylcheddol, ymchwilio i gwynion a chymryd camau gorfodi o dan y gyfraith honno . Yn y Bil fel y'i drafftiwyd, nid yw'r diffiniad o "gyfraith amgylcheddol" yn cynnwys deddfwriaeth ddatganoledig. Felly, er y byddai awdurdodaeth yr OEP yn cwmpasu'r DU gyfan, byddai ei swyddogaethau o ran Cymru yn gyfyngedig i faterion amgylcheddol a gadwyd yn ôl.

7. **O gofio bod amddiffyn yr amgylchedd yn fater heb ffiniau penodol, i ba raddau yr ydych yn fodlon ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer yr OEP (gan gynnwys y ffaith bod newid hinsawdd y tu allan i'w gylch gorchwyl)?**

8. **Sut ydych chi'n rhagweld y bydd yr OEP arfaethedig yn gweithredu yng Nghymru mewn perthynas â materion amgylcheddol a gadwyd yn ôl? Pa drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn?**

9. **Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gallu gwneud cwynion am gyfreithiau amgylcheddol, a sicrhau eu bod yn deall i bwy y gallant wneud y cwynion hynny, pa faterion yr ymdrinnir â hwy yng Nghymru, a pha rai y bydd OEP yn ymdrin â hwy?**

10. **I ba raddau yr ydych yn fodlon na fydd yr OEP arfaethedig yn tresmasu ar swyddogaethau'r cyrff hynny sy'n delio â materion amgylcheddol yng Nghymru ar hyn o bryd, nac ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru?**

Yn eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor, *Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit*, dywedasoch na allech roi ymateb pendant ynghylch a ydych yn cefnogi'r camau i sefydlu corff llywodraethu ar gyfer y DU nes bod cynigion manylach gan Lywodraeth y DU ar gael a bod dadansoddiad o'r bylchau llywodraethu yng Nghymru wedi cael ei gwblhau.

11. **O gofio bod y Bil drafft bellach wedi cael ei gyhoeddi, a allwch chi egluro'ch barn ynghylch sefydlu corff llywodraethu ar gyfer y DU? Os nad ydych eto wedi penderfynu, a allwch chi egluro pryd y byddwch yn gallu gwneud hynny?**

12. **A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y gwaith dadansoddi o ran bylchau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru? Os yw'r gwaith dadansoddi yn parhau, pryd caiff ei gwblhau?**

13. **Os yw casgliadau'r dadansoddi hwn yn ffafrio corff ar gyfer y DU, pa gyfle fydd ar gyfer cyd-ddylunio â Llywodraeth y DU cyn y caiff y Bil terfynol ei gyflwyno? Beth fyddai'r amserlen ar gyfer hyn?**

14. **Pa gyfle fydd gan y Cynulliad i graffu ar unrhyw gynnig i sefydlu corff ar gyfer y DU?**

**Bil Llywodraethu Amgylcheddol ac Egwyddorion Amgylcheddol i Gymru**

Rhoesoch ymrwymiad i gyhoeddi ymgynghoriad ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu amgylcheddol yn nhymor yr hydref 2018. Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, nid yw'r ymgynghoriad wedi cae ei gyhoeddi.

15. A allwch gadarnhau pryd y caiff yr ymgynghoriad ei gyhoeddi a rhoi amserlen ar gyfer datblygu unrhyw gynigion deddfwriaethol dilynol?

16. A allwch chi egluro a fyddai digon o hyblygrwydd yn y rhaglen ddeddfwriaethol i Fil Cymru ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu amgylcheddol gael ei basio cyn diwedd y Cynulliad hwn, pe bai angen?

17. A allwch chi egluro a fyddai digon o amser, yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, i gyd-ddylunio â Llywodraeth y DU unrhyw gynigion perthnasol ym Mil drafft y DU, pe bai angen?

**Trefniadau trosiannol**

Yn eich ymateb i'n hadroddiad *Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit*, dywedasoch y byddai'r cyfnod pontio arfaethedig o fis Ebrill 2019 i fis Rhagfyr 2020, yn ddarostyngedig i'r Cytundeb Ymadael rhwng yr UE a'r DU gael ei gytuno, yn rhoi amser ychwanegol i sicrhau bod corff llywodraethu amgylcheddol addas yn cael ei sefydlu. Gwnaethoch hefyd esbonio y byddai deddfwriaeth amgylcheddol bresennol yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio arfaethedig, ac y byddai'n ddarostyngedig i awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr UE.

18. A allwch chi egluro pa drefniadau llywodraethu amgylcheddol a fydd ar waith o 29 Mawrth 2019 os nad oes cyfnod pontio cytunedig (h.y. am fod y DU yn gadael yr UE heb fargen)?

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb erbyn **Dydd Gwener 25 Ionawr 2019** fan bellaf.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**